Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Rickeston Mill**

**Cartref Nyrsio Rickeston Mill**
**Rickeston Bridge**
**Hwlffordd**
**SA62 3DJ**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

4/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Rickeston Mill

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Rickeston Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yn Rickeston Mill yn derbyn gofal gan staff sy'n ymroddedig i'w gwaith ac sydd am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ystod o anghenion a chyflyrau cymhleth, gan gynnwys nifer sylweddol sy'n byw gyda dementia. Mae'r staff gofal yn wybodus am anghenion a dewisiadau unigol y bobl ac maent yn barchus ac ystyriol.

Mae trefniadau llywodraethu wedi'u cryfhau ac mae'r darparwr gwasanaeth wedi datblygu systemau i'w galluogi i gasglu barn y bobl. Mae'r tîm rheoli wedi rhoi gwiriadau a phrosesau ar waith er mwyn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Mae systemau ansawdd ac archwilio bellach ar waith er mwyn adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gryfhau ei oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan nad yw wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf er mwyn cwrdd â'r staff a'r bobl sy'n byw yno. Nodwyd yr achos hwn o dorri Rheoliad 73 yn yr arolygiad blaenorol ac mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i ddyroddi.

Mae gweithwyr gofal yn cael eu rheoli a'u harwain gan reolwr sydd am sicrhau bod pobl yn derbyn gofal o ansawdd da. Mae'r darparwr wedi cymryd camau i sicrhau bod y staff gofal wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio'n ddigonol i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Rhaid cynnal amserlen lanhau ar gyfer pob rhan o'r cartref oherwydd gwelsom ardaloedd a oedd angen eu glanhau a'u tacluso ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Roedd hyn wedi ei gywiro erbyn yr ail ddiwrnod. Fodd bynnag, mae angen ailaddurno ardaloedd cymunol ac mae angen llenni ar gyfer yr ystafell fwyta. Er y dywedwyd wrthym y byddai'r materion hyn yn cael sylw'n fuan, fe'u nodwyd ar adeg yr arolygiad blaenorol. Felly mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i ddyroddi ynghylch Rheoliad 44.

## Llesiant

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i helpu i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth. Mae gan y gwasanaeth bolisi diogelu sy'n esbonio sut y dylai staff adrodd am unrhyw bryderon diogelu. Mae pob gweithiwr yn gwybod sut i adrodd am unrhyw bryderon. Maent yn gwybod pa gamau y dylid eu cymryd os ydynt yn amau bod person mewn perygl neu'n cael ei gam-drin. Mae'r staff yn teimlo'n hyderus ynghylch hysbysu'r rheolwyr am unrhyw bryderon a syniadau ac maent yn hyderus y cânt eu hystyried ac y byddant yn delio â nhw'n briodol.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o'r bobl ac maent yn ymwybodol o'u hanghenion a'u hoffterau. Maent yn gwerthfawrogi'r amser y maent yn ei dreulio gyda'r bobl, ond dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu brysio weithiau oherwydd y cyfyngiadau y mae prinder staff yn ei achosi ar adegau. Mae rotâu staff yn dangos bod shifftiau'n cael eu cyflenwi, a hynny'n aml gan staff gofal a fenthycir o gartrefi eraill o fewn y sefydliad. Maent yn ymdrechu ar y cyd i recriwtio staff parhaol ychwanegol ar gyfer y cartref.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ac yn rhoi arweiniad i'r staff. Mae cysylltiad Wi-Fi gwael yn golygu fod y staff gofal yn treulio mwy o amser nag y dylent yn mewnbynnu gwybodaeth i'r system. Dywedwyd wrthym fod y system ryngrwyd bellach wedi'i huwchraddio, a rhagwelir y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r staff gofal fewnbynnu gwybodaeth mewn modd sy'n fwy amserol. Mae asesiadau ar gael ar gyfer pobl newydd sy'n symud i'r cartref. Mae'r gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol i sicrhau ymyriadau amserol. Anogir cyswllt rheolaidd â pherthnasau ac unigolion allweddol.

Gall y bobl wneud rhai pethau er mwyn bod yn egnïol ac er mwyn ymgysylltu. Cyflogir swyddog llesiant sy'n trefnu gweithgareddau a diddordebau y gall y bobl fod yn rhan ohonynt. Gwelsom y bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio, celf a chrefft ac i ryngweithio'n ddigidol.

Nid yw'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant cyffredinol y bobl ar hyn o bryd. Roedd ystafelloedd gwely'r bobl yn lân ac yn gyfforddus, yn cynnwys eitemau personol o'u dewis ac wedi'u dodrefnu'n addas. Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad arolygu roedd yr ardaloedd cymunol yn anniben ac yn llychlyd iawn. Fodd bynnag, ar yr ail ddiwrnod, roedd yr ardaloedd cymunol yn glir o annibendod ac yn lân. Mae angen ailaddurno'r ardaloedd cymunol ac mae angen llenni ar gyfer ffenestri'r ystafell fwyta.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol. Caiff y rhai sy'n ymweld â'r cartref eu gwirio er mwyn sicrhau bod y risg i'r bobl yn isel. Mae'n ofynnol i ymwelwyr ddarparu tystiolaeth o brawf llif unffordd neu

brawf PCR negatif a’u bod yn cael prawf tymheredd. Mae hylif diheintio dwylo ar gael drwy'r

## Gofal a Chymorth

cartref cyfan.

Mae polisïau, gweithdrefnau, ac arferion hylan sy'n lleihau risgiau o ran heintiau ar waith. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth o reoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Er bod ardaloedd cymunol yn anniben ac yn llychlyd ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad arolygu, roedd hyn wedi'i gywiro erbyn yr ail ymweliad. Mae'r rheolwr wedi rhoi amserlenni glanhau ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl ardaloedd cymunol yn aros yn lân ac yn daclus. Mae gan y cartref stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol ac mae yna orsafoedd hylif diheintio dwylo mewn ardaloedd gwahanol ym mhob rhan o'r cartref.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo i gynnal diet a chymeriant hylif iach. Gwelsom bryd yn cael ei weini amser cinio ac roedd yn edrych yn flasus ac yn faethlon. Roedd maint y prydau'n briodol, a chynigwyd dewis arall i'r bobl yn hytrach na'r prif bryd os oeddynt yn dymuno. Pan allai cymeriant maethol unigolyn fod mewn perygl, gwelsom eu bod yn derbyn cyngor a'u bod yn prynu cyflenwadau arbenigol i ddiwallu'r angen hwn. Dywedwyd wrthym nad oedd y darparwr wedi llwyddo i gyflogi cogydd, er gwaethaf ei ymdrechion. Er mwyn rhwystro hyn rhag cael effaith negyddol ar y prydau a ddarperir, mae'r darparwr yn bwriadu cynnig prydau gan ddarparwr bwyd wedi'i rewi amser cinio hyd nes y gellir cyflogi cogydd. Dywedwyd wrthym y bydd y prydau hyn yn parhau i fod yn flasus ac yn faethlon ac y bydd dewis o fwydlen yn parhau i gael ei gynnig i bobl amser cinio. Bydd brecwast a phrydau gyda'r nos yn parhau i gael eu paratoi yng nghegin y cartref, sydd â digon o offer ynddi. Mae'r bobl yn bwyta eu prydau naill ai yn un o'r ddwy lolfa neu yn yr ystafell fwyta. Ar adeg yr arolygiad roedd yr ystafell fwyta'n gynnes iawn ac yn rhy lachar gan nad oedd llenni ar y ffenestri mawr. Roedd hyn yn golygu fod pobl yn dewis peidio â bwyta eu cinio yn yr ystafell fwyta. Dywedwyd wrthym fod llenni wedi'u harchebu ond bod y rhai anghywir wedi'u danfon a bod y cartref yn disgwyl i gael y llenni cywir.

Mae'n ymddangos bod anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gellid gwella gofal y geg weithiau, yn enwedig o ran sicrhau bod dannedd gosod y bobl yn lân. Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion cyfredol y bobl. Gwnaethom archwilio ffeiliau gofal y bobl a gweld eu bod yn darparu gwybodaeth am anghenion yr unigolyn. Mae'r cynlluniau personol sydd ar waith yn cwmpasu meysydd fel gofal personol, diet a maeth, cyfathrebu, ymddygiad a symudedd. Gwelsom fod asesiadau risg ar waith a bod penderfyniadau budd pennaf yn cael eu cofnodi. Mae cadw cofnodion electronig wedi bod yn anodd weithiau oherwydd y signal Wi-Fi gwael sydd yn y cartref. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i gywiro bellach ac y dylai ganiatáu i gofnodion gael eu diweddaru mewn modd amserol. Mae nyrs gofrestredig wedi'i hamserlennu i fod ar ddyletswydd bob amser. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod arwyddion o niwed pwyso ar y croen ac mae ganddynt yr offer sydd eu hangen arnynt i ofalu am y bobl a allai gael problemau â'u croen. Mae ganddynt declynnau codi a chymhorthion symud a thrin eraill. Gwelsom declyn codi yn cael ei ddefnyddio a nodwyd bod y gweithwyr gofal yn

addfwyn ac yn trin y person â pharch drwy'r amser. Defnyddir rheiliau gwely ar gyfer y bobl

## Yr Amgylchedd

a aseswyd i fod eu hangen, a gwelsom fod asesiadau ar waith.

Mae'r cartref wedi'i leoli ar safle helaeth mewn lleoliad gwledig. Ar adeg yr arolygiad roedd gwaith yn mynd rhagddo i gael gwared ar rai o'r coed mawr ar y safle. Mae ardal batio gaeedig, ddymunol wedi'i datblygu y tu cefn i'r cartref, a gellir ei chyrraedd yn uniongyrchol o'r ystafell fwyta. Gwelsom bobl yn cael eu cynorthwyo i eistedd yn yr ardal hon, i fwynhau'r heulwen a'r blodau niferus sydd wedi'u plannu.

Mae'r cartref yn eiddo hynafol dau lawr. Mae'r gwaith cynnal a chadw yn barhaus oherwydd oed yr adeilad. Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, roedd yr ardaloedd cymunol, gan gynnwys yr ystafell fwyta, y coridorau a'r olchfa yn anniben. Gwelsom dywelion y bobl wedi'u pentyrru ar silffoedd agored yn un o'r coridorau i fyny'r grisiau. Nid oedd modd defnyddio'r bath i fyny'r grisiau gan ei fod yn llawn eitemau, ond dywedwyd wrthym fod y toiled yn cael ei ddefnyddio'n aml. Roedd ffenestri'r coridor i fyny'r grisiau yn llychlyd iawn gyda gwe pryfed cop mawr a phryfed cop ynddynt. Ar adeg ein hail ymweliad arolygu â'r gwasanaeth roedd hyn wedi'i gywiro ac roeddent wedi clirio'r annibendod ym mhob ardal a nodwyd. Roedd y ffenestri yn y coridorau i fyny'r grisiau wedi'u glanhau ac nid oedd tystiolaeth o lwch na gwe pryfed cop. Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y gwaith o lanhau'r cartref cyfan yn cael ei wneud yn rheolaidd. Roedd y man bwyta wedi'i baratoi'n barod ar gyfer ei ailaddurno, ond nid oedd y gwaith wedi dechrau ar adeg yr arolygiad.

Mae'r gweithiwr cynnal a chadw yn mynd i barhau i gyflawni gwaith yn ystod y gwaith ail-addurno arfaethedig, megis atgyweirio waliau, selio o amgylch baddonau a delio â thraul gyffredinol, cyn ailaddurno. Er bod dyddiad ar gyfer ailaddurno wedi'i amserlennu, nid oedd wedi dechrau ar adeg yr arolygiad, a dywedwyd wrthym fod y gwaith i ddechrau'n fuan. Nodwyd hyn yn yr arolygiad blaenorol, ac mae bellach wedi'i uwchgyfeirio i Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Roedd ystafelloedd gwely'r bobl yn lân ac yn daclus. Gwelsom eu bod wedi'u dodrefnu'n gyfforddus a'u bod wedi gosod gwedd bersonol arnynt ag eiddo'r bobl megis ffotograffau, addurniadau, ac eitemau bach o ddodrefn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ychydig o oruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diwethaf yn dilyn ymweliad gan yr unigolyn cyfrifol, dyddiedig Ebrill 2022, yn dangos yr ymgynghorir â’r bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth a’r staff sy’n gweithio yno ac y creffir ar yr amgylchedd, ac y caiff sylwadau ac argymhellion eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref ers hynny, yn unol â'r Rheoliadau. Nodwyd hyn yn yr arolygiad blaenorol ac mae bellach wedi'i uwchgyfeirio i Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf a bod rhaid iddo gyfarfod ag aelodau staff ac unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae rheolwr newydd wedi ei benodi a oedd wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth am oddeutu chwe wythnos ar adeg yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym ei bod yn weladwy iawn yn y cartref ac na fyddent yn oedi cyn mynd ati gydag unrhyw broblemau. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae rheolwyr ardal wedi ymweld â'r cartref yn aml dros yr wythnosau diwethaf er mwyn adolygu arferion ac i roi cymorth i'r rheolwr. Mae staffio wedi bod yn broblem dros y misoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd pandemig COVID-19, ond hefyd oherwydd bod nifer o staff gofal wedi gadael y cartref. Maent yn ymdrechu ar y cyd i recriwtio staff newydd, ac roedd sawl cyfweliad ar y gweill ar adeg yr arolygiad. Ar hyn o bryd, staff o gartrefi gofal eraill o fewn y sefydliad sy'n cyflenwi'r shifftiau yn bennaf. Dywedwyd wrthym fod yr un aelodau staff yn cyflenwi pryd bynnag y bo modd er mwyn sicrhau cysondeb i'r bobl sy'n derbyn gofal. Dywedodd y rheolwr a rheolwyr ardal wrthym mai mesur tymor byr yw hwn hyd nes y gellir recriwtio staff parhaol.

Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio yn ddiogel i'r gwasanaeth. Roedd y ffeiliau staff a welwyd yn cynnwys tystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Amharwyd ar hyfforddiant y staff yn ystod pandemig COVID-19, ond mae bellach wedi ailddechrau. Mae cofnodion goruchwylio yn dangos nad yw'r staff gofal wedi bod yn cael eu goruchwylio bob tri mis o leiaf. Dengys trafodaethau â'r rheolwr a'r cofnodion a welwyd bod y rheolwr wedi dechrau sesiynau goruchwylio ers iddi gael ei phenodi, a bod yr holl staff gofal wedi derbyn o leiaf un sesiwn oruchwylio ffurfiol wyneb yn wyneb o fewn amser penodedig ar adeg yr arolygiad. Trafododd y rheolwr ei bwriad i sicrhau bod y sesiynau goruchwylio yn parhau i gael eu cynnal, a'i bod wedi datblygu system a fydd yn ei hysbysu pan fydd angen cynnal sesiynau goruchwylio.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg o'r trefniadau ariannol a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth, sy'n sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol. Dywedodd y rheolwr a'r staff gofal wrthym eu bod yn hyderus y byddai unrhyw eitemau neu gyfarpar yr oedd eu hangen

ar y bobl yn cael eu darparu'n brydlon. Mae cyflenwad o welyau newydd wedi'u darparu yn ogystal â chadeiriau â chefn asgellog newydd. Dywedwyd wrthym am gynlluniau i ddatblygu'r ardd ymhellach i ddarparu mynediad diogel ychwanegol y gall pobl ei fwynhau.

.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 73 | Ar 20/4/2022 yr ymwelodd yr unigolyn cyfrifol â'r cartref ddiwethaf. Nid yw wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf er mwyn cyfarfod â'r bobl a'r staff ac i dderbyn adborth uniongyrchol am y gwasanaeth. | Newydd |
| 44 | Mae rhannau o'r cartref yn parhau i fod angen eu hailaddurno a'u hadnewyddu. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/10/2022